

## Fersiwn hawdd ei darllen

### Ymgynghoriad ar y Polisi newydd sy'n cael ei gynnig ar gyfer Teithio o'r Cartref i'r Ysgol 2020

Oddi wrth bwy mae'r wybodaeth yma?	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Am beth mae'r ddogfen yma?	<p>Mae'n dweud wrthyhych chi am y gwasanaeth teithio o'r cartref i'r ysgol.</p> <p>Mae hefyd yn rhoi gwybod i chi beth yw ein meddyliau o ran dyfodol y gwasanaeth teithio o'r cartref i'r ysgol rydyn ni'n ei gynnig.</p>
Beth ydyn ni'n ei wneud nawr?	<p>Mae'r gwasanaeth teithio o'r cartref i'r ysgol yn cael ei ddefnyddio gan lawer o blant a phobl ifanc.</p> <p>Mae'r Llywodraeth yn dweud wrthyn ni beth mae'n rhaid i ni ddarparu, ond rydyn ni hefyd yn darparu mwy na hynny.</p>
Pam rydyn ni'n awgrymu rhywbeth gwahanol?	Mae angen i ni ffeindio ffyrdd o wneud y gwasanaeth teithio o'r cartref i'r ysgol yn wasanaeth teg, sydd hefyd yn gwneud defnydd gorau arian y Cyngor.
Beth yw ein syniadau?	<p><b>Disgyblion sy'n byw mewn mwy nag un cyfeiriad</b></p> <p>Mae rhai plant a phobl ifanc yn byw mewn dau gyfeiriad. Y rheswm am hynny yw eu bod nhw'n treulio peth amser bob wythnos gydag un rhiant/gofalwr a pheth amser gyda'r rhiant/gofalwr arall.</p> <p>Os byddwn ni'n trefnu teithio o'r cartref i'r ysgol ar gyfer y ddau gyfeiriad, mae hynny'n costio llawer o arian.</p> <p>Rydyn ni'n meddwl mai dim ond y cyfeiriad sy'n agos at yr ysgol ddylai gael help gennym ni ar gyfer y teithio. Os yw cyfeiriad arall yn rhy bell o'r ysgol, ddylen ni ddim trefnu teithio o'r cyfeiriad yna.</p> <p><b>Disgyblion dros 16 oed sydd gyda Anghenion Dysgu Ychwanegol/Anghenion Addysg Arbennig</b></p> <p>Mae rhai disgyblion yn mynychu Ysgol arbennig oherwydd dyma'r lle gorau i gyflawni eu anghenion addysgol lan at 16 oed. Ond wrth gyrraedd 16 oed, nid ydynt yn parhau mewn ysgol arbennig neu darpariaeth arbenigol arall ar</p>

gyfer eu haddysg, ond yn dewis mynychu lle addysg anarbenigol. Ar gyfer y disgyblion hyn, nid ydym yn bwriadu cynnig cymorth teithio, a dylai'r disgyblion yma drefnu trafnidiaeth eu hunain.

#### **Seddau sbâr ar fysiau ysgol**

Rydyn ni'n caniatáu i rai plant sydd ddim yn gymwys i gael trefniadau teithio o'r cartref i'r ysgol ddefnyddio unrhyw seddau sbâr sydd ar y bws. Rydym ni'n codi tâl am hynny, ond dydyn ni ddim yn meddwl ein bod ni'n gofyn am ddigon o arian, felly rydym ni'n credu bod angen i ni godi cost sedd sbâr ar y bws.

#### **Teuluoedd sydd â cherbydau Cynllun Symudedd**

Weithiau mae plant sydd ag anabledd yn gallu cael cerbyd mae eu teulu'n ei ddefnyddio i fynd â nhw o gwmpas.

Bydden ni'n hoffi i'r teulu ddal ati i ddefnyddio'r cerbyd i fynd â'r plentyn yn ôl ac ymlaen i'r ysgol, a lle byddai hynny'n briodol, bydden ni'n talu rhywbeth at gost hynny, er enghraifft tuag at y petrol trwy rywbeth rydym ni'n ei alw'n lwfans milltiroedd.

#### **Proses apêl dau gam**

Bydden ni'n hoffi newid sut rydym ni'n cynnal apeliadau a rhannu'r broses yn ddau gam. Bydd y cam cyntaf yn cael sylw gan grŵp o bobl rydym ni'n eu galw nhw'n Grŵp Trafnidiaeth, a bydd yr ail gam yn cael sylw gan grŵp arall o bobl, panel fydd heb wybodaeth am y mater, ac a fydd yn gwneud penderfyniad ar sail y dystiolaeth maen nhw'n ei chlywed a'i darllen.

#### **Mathau o gymorth sy'n cael eu cynnig**

Rydym ni'n meddwl bod un person yn unig mewn cerbyd yn ddrud iawn, a bod dim angen hynny bob amser. Rydym ni eisiau dweud wrth bobl ein bod ni am i'n holl blant a phobl ifanc rannu cerbyd wrth deithio i'r ysgol ac oddi yno, yn hytrach na mynd ar eu pen eu hunain.

Gallwn ni hefyd newid y math o drafnidiaeth rydych chi'n ei gael nawr i gyrraedd yr ysgol a dod oddi yno, er enghraifft, efallai na fyddwch chi'n teithio mewn tacsï bellach, a bydd eich rhieni'n mynd â chi yng nghan y teulu, neu efallai byddwch chi'n cael hyfforddiant teithio fydd yn golygu eich bod chi'n gallu cyrraedd yr ysgol a'r coleg a dod oddi yno'n annibynnol.

	<p><b>Ceisiadau ar-lein</b></p> <p>Os ydych chi neu eich teulu eisiau gwneud cais am help gyda theithio o'r cartref i'r ysgol, rydyn ni eisiau i chi lenwi ffurflen ar-lein a'i hanfon ati fel yna, oherwydd rydyn ni'n meddwl bod honno'n ffordd well o wneud pethau.</p>
<p>Beth hoffen ni i chi wneud?</p>	<p>Bydden ni'n hoffi i chi ddweud wrthyn ni beth yw eich barn am ein syniadau.</p> <p>Bydden ni'n hoffi i chi lenwi'r arolwg ar-lein i ddweud wrthyn ni beth yw eich barn.</p> <p>Gall rhywun eich helpu i lenwi'r arolwg ar-lein.</p> <p>Os dydych chi ddim eisiau llenwi'r arolwg ar-lein, rhowch wybod i ni, a gallwn ni anfon ffurflen atoch chi.</p>
<p>Erbyn pryd mae angen i chi roi gwybod i ni</p>	<p>Mae angen i chi roi gwybod i ni cyn diwedd y dydd, ddydd Llun 4 Awst 2019.</p>